

1. SEFYLLFA BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Dim gwybodaeth amdani
DU a Chymru	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad(Atodlen 5) ^a Deddf Mamaliaid Gwyllt 1996 Blaenoriaeth CGB Prydain Rhestr S74 Cymru ^b
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Credir mai'r llygoden ddŵr^c yw'r anifail sydd â'i niferoedd yn dirywio gyflymaf trwy Brydain. Roedd y rhywogaeth ar un adeg yn gyffredin ac i'w ganfod mewn llawer man ond dros y 100 mlynedd diwethaf mae'r niferoedd a'r cynefinoedd wedi dirywio yn ddirfawr. Awgrymai astudiaeth a wnaed ym 1990 bod y llygoden ddŵr wedi diflannu o 67% o'r manau lle'r arferai gartrefu. Erbyn hyn gall y ffigwr hwn fod dros 90%. Ym 1995 amcangyfrifwyd bod cyfanswm eu poblogaeth cyn cymaru tua 1,170,000 anifail. Cofnodwyd llygod dŵr ym mhob sir yng Nghymru ond ychydig o fanylion sydd gennym am eu dosbarthiad a'u statws. Amcangyfrifir bod y cyfanswm cyn cymaru yn awr mor isel â 40,000.

1.3 Y Sefyllfa yng Ngwynedd^d

Mae arolygon diweddar yn awgrymu bod llygod dŵr yn debygol o fodoli ledled Gwynedd, yn enwedig ar dir gwlyb a gorlifdir, a bod Penrhyn Llŷn o bosibl yn gadarnle i lygod dŵr. Mae hyn oherwydd y nifer gweddol fychan o finc sydd wedi eu gweld yn yr ardal, er bod arwyddion o fodolaeth y minc ar gynydd yno.

Ni wyddir yn hollol ble y mae'r llygoden ddŵr yn bodoli o fewn Gwynedd. Mae safleoedd wedi eu canfod yn nalgylch afon Ogwen ac ar orlifdir Llyfni, Dwyfach a Glaslyn, ac ar Benrhyn Llŷn o fewn dalgylchoedd afonydd Soch, Rhyd-hir, Erch a Phenrhos. Mae'r llygoden ddŵr hefyd i'w chanfod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri gan gynnwys rhai dalgylchoedd sydd yn croesi ffiniau'r Parc i ardal Gwynedd.

2. FFACORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD^e

- Colli neu ddifrodi cynefinoedd ar lan afon, gorlifdir a ffosydd, o ganlyniad i waith peirianyddol dwys a gwaith diogelu / cynnal a chadw glannau, datblygiadau ar gyfer adeiladu tai, diwydiannau a/neu ddefnydd hamdden, torri gwellt cyson / strimio, pwysau pori trwm gan anifeiliaid, cysgod cryf oddi wrth goed a pherthi a diffyg rheolaeth addas ar ffosydd.
- Malurio cynefinoedd, gan adael poblogaethau bychain, ynysig sydd yn fregus iawn ac yn rhwystro i'r boblogaeth ehangu gan nad oes safleoedd addas gerllaw i greaduriaid ifanc sefydlu eu tiriogaethau eu hunain.
- Newid mewn lefelau dŵr - o ganlyniad i draenio tir, rheoli llifogydd, tynnu dŵr o afonydd, ac o bosibl o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, cyfnodau hirach o lifogydd a / neu gyfnodau hirach o sychder.
- Lefelau uwch o elynion, yn enwedig gan finc *Gogledd America*, *Mustella vison*, a gwaethygir y sefyllfa o ganlyniad i ddifrodi a malurio cynefinoedd. Mae ysglyfaethu gan gathod hefyd yn broblem, yn arbennig yn yr ardaloedd ar gyrion trefi.
- Disodliad gan y llygoden fawr frown, *Rattus norvegicus*.

^a Adran 9 yn unig

^b Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mynd yn Wylt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Crown Copyright 2003.

^c *Arvicola terrestris*

^d O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

^e Gweler hefyd CGC eraill am fwy o ffactorau perthnasol

- Gwenwyno (gan bla-laddwyr a fwriadwyd ar gyfer llygod mawr) a llygredd, yn arbennig oddi wrth bryfleiddiad a / neu wastraff fferm)

3. CGR / CGC PERTHNA SOL YNG NGWYNEDD

Morfa bori arfordirol a gorlifdirol, Coridorau afonydd, Porfa rhos, Gwlyptiroedd

Dyfrgwn, Lampreiod, Misglen berlog yr afon, Eogiaid.

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Pan fydd angen AEA ar gyfer datblygiadau arfaethedig megis cynlluniau adeiladu ffyrdd, bydd y rhain yn cynnwys archwiliadau am rywogaethau a ddiogelir, y llygoden ddŵr yn eu mysg. Pan welir bod y llygoden ddwr yn bresennol efallai yn bydd angen mesurau ymyrraeth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn ymgymryd ag archwiliadau am y llygoden ddwr fel rhan o'r asesiadau AEA a wneir ar gyfer gwaith mewnol.
- Gall llygod dŵr fod yn bresennol mewn ardaloedd o Wynedd sydd wedi eu nodi fel safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu wedi eu dynodi fel SoDdGA, ymgeisydd ACA neu AGA

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae prosiect mamaliaid afonydd ar droed trwy Grwp Mamaliad Afonydd Gogledd Orllewnn Cymru ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Menter Môn a Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru a bydd yn cynnwys gwaith yn ymwneud â gwella cynefinoedd. Yr ardal Beilot yng Ngwynedd fydd dalgylch yr afon Glaslyn, lle cychwynwyd gwaith yng Ngwanwyn 2003, ac mae'n bosibl y caiff y prosiect ei ehangu i dalgylchoedd eraill yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Rheoli Lefelau Dŵr corydd ardal Glaslyn - cynllun gan Asiantaeth yr Amgylchedd- yn cynnwys mesurau rheoli ar gyfer y llygoden ddŵr
- Cynhyrchwyd poster codi ymwybyddiaeth am y llygoden ddŵr a ffurflen cofnodi ei phresenoldeb ac hefyd daflen gwybodaeth ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr.
- Mae prosiect ar droed ledled Prydain - Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt - dan ofal yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, a'i fwriad yw cynnal gwaith cadwraethol gyda chymunedau lleol mewn cynefinoedd glan afon a gwlybtir. Ar y funud mae un rheolwr dros Gymru ond disgwylir y penodir swyddog prosiect dros Ogledd Cymru yn y dyfodol agos.
- Mae'r llygoden ddŵr yn un o'r rhywogaethau sydd yn gymwys ar gyfer arian o Gronfa Rhywogaethau Arbennig CCGC

4.3 Arolwg, ymchwilio a monitro

- Trefnwyd ddyddiau hyfforddiant ar lygod dŵr ar gyfer gwirfoddolwyr gan Gyngor Gwynedd ym 1999 a 2000, ac archwiliwyd nifer o safleoedd, yn arbennig ar Benrhyn Llŷn
- Mae'r prosiect mamaliaid glan afon (gweler 4.2 uchod) yn cynnwys archwiliadau am ddyfrgwn, llygod dŵr a minc. Gweler 4.2 uchod.
- Cedwir bâs data o gofnodion llygod dŵr gan Menter Môn. Mae gwybodaeth o'r bâs data hwn, a rhai eraill, wedi ei gynnwys ym mäs data Grŵp Llygod Dŵr Cymru.
- Mae Grŵp Llygod Dŵr Cymru ar y funud yn ffurfio strategaeth ar gyfer Llygod Dŵr yng Nghymru a chydlynir arolygon gan wirfoddolwyr gan swyddogion CGBL ledled Cymru, yn cynnwys Gwynedd.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Sefydlu statws a dosbarthiad cyfredol y llygoden ddŵr yng Ngwynedd
2. Diogelu, cynnal a gwella heidiau a chynefinoedd llygod dŵr presennol.
3. Adfer a gwella safleoedd eraill sydd yn addas, gan gynnwys cynefinoedd coridorau afonydd er mwyn cysylltu heidiau llygod dŵr â'i gilydd a chynyddu eu poblogaeth a'u dosbarthiad.
4. Defnyddio'r llygoden ddŵr fel rhywogaeth enghreifftiol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheolaeth addas dros cynefinoedd y rhywogaeth

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ^f
Polisi a deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio er mwyn sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn addas ar gyfer cadwraeth llygod dŵr, yn enwedig y datblygiadau ar lannau afonydd neu o fewn cynefinoedd eraill. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Cynnwys camau cadwraeth ar gyfer llygod dŵr yn holl gynlluniau perthnasol AAC sydd i'w cyhoeddi yn y dyfodol. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA
3	Ystyried dynodi safleoedd o bwysigrwydd I'r llygoden Ddŵr yn Safleoed Bywyd Gwyllt TARGED/ AMSERLEN: cychyn dynodi ym 2005	CG, Partneriaeth Dyfrgwn Afon Dwyrnod, CCGC, AA, CBNGG, Dŵr ar gyfer bywyd gwyllt
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
4	Adnabod dalgylchoedd ac ardaloedd allweddol o fewn dalgylchoedd sydd â phosibiliadau ar gyfer ffurfio cadarnleoedd i'r llygod dŵr, gan ddefnyddio data Cynefinoedd Cam Un, a chanlyniadau arolygon cynharach. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, AA, CBNGG,
5	Parhau gyda'r prosiect mamaliaid glan afon sydd ar y gweill yn awr trwy chwilio am ragor o nawdd grant. TARGED/ AMSERLEN: erbyn 2005	CG, partneriaid perthnasol GMAGOC
6	Targedu rheolaeth addas ar gyfer llygod dŵr yn yr ardaloedd a nodwyd uchod. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, CCGC, CG, CBNGG,
7	Gweithredu rheolaeth minc yn unol â chanllawiau hawliau anifeiliaid mewn lleoliadau lle mae ysglyfaethu gan y minc yn fygythiad mawr i niferoedd y llygod dŵr, yn enwedig o fewn dalgylchoedd allweddol. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol /Fel a phan fydd angen	AA, Menter Môn,
8	Sicrhau bod anghenion gofal a rheolaeth llygod dŵr yn derbyn ystyriaeth mewn unrhyw gynllun rheoli neu gynllun grant perthnasol (yn cynnwys CRCCs, CrGC, Tir Gofal, AAS) trwy ymgynghoriad gyda staff bioamrywiaeth AA TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, CCGC, CC, AACGG, CCTh, CG

^f Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyngor		
9	Darparu cyngor a hyfforddiant rheolaidd ar faterion diogelu llygod dŵr ar gyfer swyddogion rheoli datblygu, peirianwyr priffyrdd, staff AAC, yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau hyfforddi a drefnir gan Grwp Llywio Dyfrgwn a Lonydd yn y dyfodol TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol/ I'w osod	CG, AAC, CCGC
10	Darparu cyngor ar reoli llygod dŵr a chynefinoedd ar gyfer tirfeddianwyr a rheolwyr tir. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	AA, GCFBG, CG, CBNG, Dŵr i fywyd Gwyllt,
Arolwg, ymchwil a monitro		
11	Cadw bas data llygod dŵr . GCFBG	Menter Môn
12	Trefnu arolygon cyson i ganfod presenoldeb llygod dŵr a'u manau magu o fewn Gwynedd, ac hefyd bresenoldeb minc, mewn partneriaeth â grwpiau lleol a gwirfoddolwyr, yn cynnwys cymdeithasau pysgota lleol a grwpiau Gofal Afonydd a'r rhai sydd yn cynnal arolygon cyffelyb ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac ardaloedd cyfagos. Sicrhau bod yr arolygon wedi eu cynnwys o fewn unrhyw raglen arolwg ar gyfer Cymru / DU. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol/ I'w osod	CG, AA, CCD, CBNGG, Dŵr i Fywyd Gwyllt
Cyfathrebu a chyhoedduswydd		
13	Dosbarthu'r daflen wybodaeth - Hanes Llygod Dŵr - i berchnogion a rheolwyr tir mewn digwyddiadau a sioeau lleol. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol/ I'w osod	CG, GCFBG,
14	Codi ymwybyddiaeth ymysg tirfeddianwyr a rheolwyr tir bod y rhywogaeth hwn wedi ei ddiogelu trwy gyfraith, ac y gall rheoli ffosydd, llygod mawr a chathod fod o gymorth mawr i'r llygod dŵr - trwy gynnwys erthyglau mewn cyhoeddiadau a rhoi cyflwyniadau i grwpiau perthnasol (ee. Cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol Undebau amaethyddol) TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, AAMG, CCGC, GYABG, YBGGC, Dŵr i Fywyd Gwyllt
15	Annog cofnodi gweld y llygoden ddŵr gan y cyhoedd yn gyffredinol a'u trosglwyddo i Menter Môn ar gyfer eu cyhoeddi mewn datganiadau i'r wasg leol yn flynyddol, a darparu cyngor manwl os bydd cais am hynny. TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol	CG, AA, CBNGG

7 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

7.1 Prif Bartner ar gyfer CGR

Asiantaeth yr Amgylchedd (AA)

7.2 Partneriaid allweddol

Partneriaeth Dyfrgwn Afon Dwyrdd (PDAD)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Adran Amgylchedd Cynllunio Chefn Gwlad (AACChG)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Grwp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cadw Cymru'n Daclus (CCD)

Menter Môn

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt (DBG)

7.3 Cyfleoedd

Gwirfoddolwyr, myfyrwyr, pysgotwyr, partneriaethau / grwpiau dyfrgwn lleol, undebau amaethyddol, Perchnogion a rheolwyr tir, Grwpiau Prosiect Afonydd Glan

8. DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Martin Schofield

Ymgynghorwyd â: Louise Midgely, Robert Greig (Prosiect Dyfrgwn Môn), Dave Thorpe (AA), Carri Lane (AA), Chris Wynne (CBNGC), Jill Jackson (CG)

Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, AEA: Asesiad Effaith Amgylcheddol, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CRCC: Cynllun Rheoli Coedydd Cynhenid, GMAGOC: Grwp Mamaliaid Afon Gogledd Orllewin Cymru, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AGA: Ardal Gadwraeth Arbennig, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CGrC: Cynllun Grant Coetiroedd.